

2011 Rhif 444 (Cy.66)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A55
(Y Gerbyttfordd tua'r Gorllewin
wrth Gyffordd 19 (Cyfnewidfa
Glanconwy), Conwy) (Terfyn
Cyflymder 40 mya Dros Dro) 2011

Gwnaed 17 Chwefror 2011

Yn dod i rym 28 Chwefror 2011

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Caer – Bangor (yr A55) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “y gefnffordd”), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 28 Chwefror 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Y Gerbyttfordd tua'r Gorllewin wrth Gyffordd 19 (Cyfnewidfa Glanconwy), Conwy) (Terfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro) 2011.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw'r cyfnod sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 28 Chwefror 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu symud oddi yno'n derfynol;

ystyr “y darn o'r gefnffordd” (“*the length of the trunk road*”) yw'r darn hwnnw o gerbyttfordd tua'r gorllewin cefnffordd yr A55 ym Mwrdeistref Sirol Conwy sy'n ymestyn o ganolbwynt Cyffordd 20 (Brompton Avenue) hyd at ganolbwynt Cyffordd 18, gan gynnwys y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 19.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn cyfeirio at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn penodedig o'r gefnffordd.

4. Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

5. Drwy hyn, atelir darpariaethau Rheoliad 13(1) o Reoliadau Gorchymyn Ffordd Arbennig (Bae Colwyn i Lanconwy) 1985(3) mewn perthynas â'r darn penodedig o'r gefnffordd.

6. Drwy hyn, atelir darpariaethau Rheoliad 13 o Reoliadau Gorchymyn Ffordd Arbennig (Glanconwy i Forfa Conwy) 1990(4) mewn perthynas â'r darn penodedig o'r gefnffordd.

7. Drwy hyn, atelir darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Glanconwy - Morfa Conwy, Conwy) (Terfyn Cyflymder 70 mya Dros Dro) 2010(5) mewn perthynas â'r darn penodedig o'r gefnffordd.

8. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

17 Chwefror 2011

J COLLINS

Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyflenwi Seilwaith
Llywodraeth Cynulliad Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(3) O.S. 1985/824

(4) O.S. 1990/1586

(5) O.S. 2010/808 (W.84)